# Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll
## a gynhalwyd yn Y Ganolfan, Llithfaen
### Nos Fawrth 11eg o Ragfyr, 2018 am 7:00y.h.



Cadeirydd y Cyfarfod: Y Cyng. Griffith John Lesley Jones

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presennol:** | | | Cynghorwyr - Lisbeth James (LJ), Sianelen Pleming (SP), John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Griffith Jones (GJ), Emlyn Hughes (EH),Ynyr Ellis (YE), William Jones (WJ)<br>a'r Cyng. Aled Jones (AJ). |
| **1.** | | | **Hysbysiadau'r Cadeirydd**<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod |
| **2.** | | | **Ymddiheuriadau**<br>Olwen Roberts (OR), Sara Williams (SW). |
| **3.** | | | **Datgan Diddordeb**<br>Dim |
| **4.** | | | **Diweddariadau asedau**<br>Dim |
| **5.** | | | **Cofnodion Cyfarfod 13eg o Dachwedd, 2018** |
| | ***5.1*** | | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigiodd J.O ac eiliodd Y.E cywirdeb y cofnodion<br>Llofnodwyd y Cofnodion yn gywir.<br><br>Nodwyd y Clerc bod cynnig ac eilio cywirdeb cofnodion y 9fed o Hydref, 2018 wedi cael ei anwybyddu er eu bod wedi ei llofnodi yn gywir, cynigiodd L.J ac eiliodd J.O ei gywirdeb. |
| | ***5.2*** | | **Materion yn codi** |
| | | **5.2.1** | **Wal y ffordd i Nant Gwrtheyrn**<br>S.P wedi derbyn pris o £19,000 am dynnu a ail codi'r wal neu £4,500 am dynnu a clirio. Bydd cyfarfod yn y flwyddyn newydd a bydd S.P yn adrodd ar gynnydd pryd hynny. |

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **5.2.2** | **Mynwent Pistyll**<br>Gan fod L.J wedi methu a chysylltu ar Esgobaeth ym Mangor er llawer o geisiadau, cytunwyd i'r Clerc weithredu ar y mater o hyn ymlaen. |
| | | **5.2.3** | **Cerrig Milltir Blwyf Pistyll**<br>Oherwydd tywydd garw a nosweithiau buan ni fedrodd y Cynghorwyr fynd ati i ddarganfod union leoliad y cerrig milltir, cytunwyd mynd ati ym mis Mawrth pan fydd tywydd a nosweithiau mwy ffafriol. |
| | | **5.2.4** | **Goryrru trwy Lithfaen**<br>Adroddodd y Clerc iddi dderbyn gwybodaeth gan y P.C.S.O lleol bod y beic "GO Safe " wedi bod yn Llithfaen ar y dyddiadau canlynol:<br>22/05/18, 14/06/18, 03/07/18, 05/07/18, 06/08/18, 16/09/18 ac yr 02/10/18.<br><br>Canlyniad yr ymweliadau hyn:<br>Dim cerbydau yn gôr yrru.<br>Roedd y PCSO lleol hefyd wedi bod yn Llithfaen ei hun yn defnyddio'r "gwn laser" a chanfod bod 1 cerbyd yn teithio ar gyflymder o 32 MYA tra bod y lleill i gyd yn teithio ar 30PH neu lai.<br>Roedd y PCSO hefyd wedi gyrru pryderon y Cyngor bod y beic ddim ar y safle ar yr amseroedd cywir ymlaen at adran diogelwch ar y Ffyrdd ond ei bod heb dderbyn ymateb hyd yn hyn.<br>Ni fu i'r Clerc dderbyn cadarnhad y bydd swyddog ar lefel uwch yn mynychu'r cyfarfod heno.<br>(Roedd G.J wedi derbyn gwybodaeth bellach gan swyddog 'Go safe' fod ceir wedi ei dal yn goryrru ar 45, 39 a 37 milltir yr awr).<br>*Y Clerc i ymestyn gwahoddiad i Dylan Wyn Jones, Rheolwr Uned Traffig Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod ym Mis Ionawr.* |
| | | **5.2.5** | **Llwyni Peryglus**<br>Nodwyd GJ yn y cyfarfod blaenorol fod llwyni peryglus yn tyfu i geg lon Awelfryn. Y Clerc wedi gweithredu ar mater nawr yn nwylo'r Cyngor Sir. |
| | | **5.2.6** | **Dwr a difrod i'r lonydd lleol**<br>Nodwyd LJ yn y cyfarfod blaenorol bod draen yn rhedeg i geg lon heibio Capel Tabor ac yn dod lawr o Fryn Celyn, hefyd difrod i'r lon o Bistyll i Bentre' Uchaf, ochor isaf i Ben Isa'r Rhos wrth ymyl y corlannau. Y Clerc wedi gweithredu ar mater nawr yn nwylo'r Cyngor Sir. |
| **6.** | | | **Canolfan Llithfaen**<br>Penderfynwyd ychwanegu'r telerau parcio canlynol yn brydles y Ganolfan -<br>£30 am un car y flwyddyn neu £35 am ddau gar y flwyddyn.<br>*SP a Catrin Gwyn (Cyngor Gwynedd i weithredu).* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **7.** | | | **Tir Comin a Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn**<br>Penderfynwyd bydd rhaid i'r Cynghorwyr gyfarfod ar y safle ar ddechrau'r flwyddyn newydd cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach. |
| **8.** | | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>Dim. |
| **9.** | | | **Materion Lleol a gyflwynwyd o flaenllaw**<br>Dim. |
| **10.** | | | **Gohebiaeth** |
| | ***10.1*** | | **E. bost gan y PCSO lleol i ymwneud a gôr yrru yn Llithfaen x 2**<br>Gweler pwynt 5.2.4 |
| | ***10.2*** | | **Llywodraeth Cymru - Diweddariad ar Wariant Adran 137 y Terfyn ar gyfer 2019-20**<br>Y Clerc wedi ei gylchredeg a'r Cynghorwyr o flaen llaw.<br>*Y Clerc i yrru esboniad manwl i S.P* |
| | ***10.3*** | | **Ymateb y Swyddfa Bost i'r cwyn swyddogol**<br>Y Clerc wedi ei gylchredeg a'r Cynghorwyr o flaen llaw<br>*L.J am osod yr ymddiheuriad a'r esboniad ar hysbysfwrdd y pentref.* |
| | ***10.4*** | | **BDO – Bwriad i amodi – Asesiad risg heb ei wneud**<br>Y Clerc wedi ei gylchredeg a'r Cynghorwyr o flaen llaw ac wedi gweithredu ar y mater. |
| | ***10.5*** | | **Nodyn atgoffa i ymwneud a Datganiad Blynyddol i'r Panel Annibynnol Cymru**<br>Y Clerc wedi ei gylchredeg a'r Cynghorwyr o flaen llaw ac wedi gweithredu ar y mater. |
| | ***10.6*** | | **Ymateb i ymholiad am finiau baw ci gan Adran Gorfodaeth Stryd Cyngor Gwynedd**<br>Y Clerc wedi ei gylchredeg a'r Cynghorwyr o flaen llaw.<br>*Y Clerc i ofyn am fagiau baw ci i siop y pentref.* |
| **11.** | | | **Gwybodaeth** |
| | ***11.1*** | | **Cais am rodd gan Galonnau Cymru - Theatr Bara Caws - Dawns i bawb**<br>Y Clerc wedi ei gylchredeg a'r Cynghorwyr o flaen llaw - dim sylwadau tan fis Mawrth. |
| | ***11.2*** | | **Arolwg - Siawns i ddweud eich dweud am blismona**<br>Y Clerc wedi ei gylchredeg a'r Cynghorwyr o flaen llaw . |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *12* | | | **Cyllid** |
| | *12.1* | | **Llofnodwyr a chyfeiriad y gyfriflen banc**<br>Cynigiodd a phwysleisiodd LJ pwysigrwydd gwneud yn siŵr bod y llofnodwyr priodol yn bresennol ym mhob cyfarfod.<br>*Y Clerc i drefnu newid y cyfeiriad lle bydd y gyfriflen banc yn cael ei gyrru.* |
| | *12.2* | | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf**<br><br>**Cyfredol:**<br>Cyflog a Threuliau Hydref a Thachwedd y Clerc - £374.77<br>Hyfforddiant Un Llais Cymru - £40.00<br>Archwilwyr mewnol Cyngor Gwynedd - £150.00<br>**Balans - £8,375.38**<br><br>**Cadw:**<br>**Balans - £2,145.58** |
| | *12.3* | | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br>Cyflog y Clerc - £160<br>Treuliau gweinyddu'r Clerc - £19.91 |

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 8fed o Ionawr am 7:00 y.h.**

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*